



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Addysg yn y Cartref – Canllawiau Statudol i
Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Hydref 2019

Addysg yn y Cartref – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn addysg addas. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau statudol drafft i gynorthwyo awdurdodau lleol i nodi plant o oed addysg orfodol nad ydynt yn hysbys iddynt ac i sicrhau bod y plant hyn yn derbyn addysg addas.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 21 Hydref 2019 a gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

WELLBEINGshare@gov.wales
WELLBEINGshare@llyw.cymru

Nodwch 'Ymgynghoriad ar Addysg yn y cartref – WG35754' yn y llinell destun.

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Ymgynghoriad ar Ganllawiau Addysg yn y Cartref
Tîm Llesiant Disgyblion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngghoriadau

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cefndir a cyd-destun	4
Y materion	5
Y mateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd	5
Y Cynnig	6
Casgliad	7

Rhagair y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru, yn gywir ddigon, yn falch o'n hanes o hyrwyddo hawliau plant a gweithio i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Ein huchelgais yw sicrhau bod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael eu hyrwyddo a'u parchu er mwyn eu galluogi i wireddu eu potensial.

Addysg yng Nghymru: Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er bod y cynllun gweithredu'n nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud yn ei blaen dros y pedair blynedd nesaf, dylai'r egwyddorion o ddarparu'r cymorth angenrheidiol i blant mewn ysgolion – a'r hawl i bob plentyn dderbyn addysg – fod yr un mor gymwys i'r rheini a gaiff eu haddysgu yn y cartref.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan blant yr hawl i addysg ac y dylai taith addysgol plentyn fod yn un o adegau mwyaf cyfoethogol a boddhaol ei fywyd, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae gan bob plentyn yr hawl sylfaenol i addysg a dyletswydd rhiant plentyn o oedran addysg orfodol yw sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu. Mae rhan helaeth o ddatblygiad cynnar plentyn yn digwydd yn gyfan gwbl yn amgylchedd y cartref. Wrth i blant dyfu a datblygu, mae'r rhan fwyaf o rieni yn dewis anfon eu plant i'r ysgol; fodd bynnag, mae rhai yn dewis parhau â datblygiad addysgol eu plentyn yn y cartref. Mae Llywodraeth Cymru yn parchu dewis rhai rhieni i addysgu eu plant yn y cartref ac nid oes a wnelo'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori hon â dileu'r dewis hwnnw. Mae dewis rhieni yn agwedd allweddol ar addysg yn y cartref. Rhaid taro cydbwysedd rhwng y dewis hwnnw a budd pennaf y plentyn a'r disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn gallu asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a wneir gan rieni er mwyn sicrhau y bydd yn peri i'r plentyn dderbyn addysg addas.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo i asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir gan rieni i blant o oed addysg orfodol a addysgir yn y cartref, yn ogystal â llawlyfr cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Gan ddefnyddio pwerau presennol a geir yn adran 29 o Ddeddf Plant 2004, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau er mwyn:

- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cronfa ddata i'w cynorthwyo i nodi plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir, nac ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nac ar gofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.
- Ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddatgelu gwybodaeth benodol, gyfyngedig, anghlinigol i awdurdodau lleol am blentyn sydd fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol rannu data â'r awdurdod lleol ar y disgyblion sydd wedi'u cofrestru â nhw.

Bydd Rheoliadau Cronfa Ddata (Cymru) 2020 drafft a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft Deddf Plant 2004 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y cynigion hyn. Byddwn yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft ar wahân.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, cymunedau addysgu yn y cartref, plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnig cyfleoedd pellach i rannu barn ar y cynigion. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 21 Hydref 2019. Ein nod yw cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn www.beta.gov.wales/consultations erbyn diwedd y flwyddyn.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i swyddogion addysg yn y cartref awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chydweithwyr yn Estyn sydd wedi ymwneud â datblygu'r canllawiau statudol. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i Gomisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am roi adborth beirniadol ac awgrymiadau. At hynny, hoffwn ddiolch i'r rhieni hynny sy'n addysgu yn y cartref sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r llawlyfr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i bawb ddweud eu dweud er mwyn ein helpu i sicrhau bod y dull gweithredu rydym yn ei ddatblygu yn rhesymol ac yn gymesur ac er budd pennaf dysgwyr.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar y cynnig.



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

1. Cefndir a chyd-destun

Yn strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb"¹ a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod profiadau unigolyn fel plentyn yn cael effaith sylweddol ar ei ddyfodol, a'u bod yn hanfodol o ran ei gyfleoedd i fyw bywyd iach, ffyniannus a bodlon.

Ers i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011² ddod i rym, mae dyletswydd statudol ar bob un o Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd hon yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy greu diwylliant sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn hybu hawliau plant.

Caiff rhieni addysgu eu plant yn y cartref ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n nodi 'The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable

- to his age, ability and aptitude, and
- to any special educational needs he may have,
- either by regular attendance at school or otherwise.'

Gall rhieni gyflawni'r ddyletswydd hon drwy anfon eu plentyn i'r ysgol yn rheolaidd neu drwy ddull arall (e.e. drwy eu haddysgu yn y cartref). At ddibenion y ddogfen ymgynghori hon, mae'r term "rhiant" yn cynnwys unrhyw berson â chyfrifoldeb rhieni neu gyfrifoldeb gofalu.

Mae adran 436A o Ddeddf Addysg 1996³ yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i'w galluogi i nodi (cyn belled ag y bo'n bosibl gwneud hynny) y plant hynny yn eu hardaloedd sydd o oedran addysg orfodol ond:

- nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol, ac
- nad ydynt yn derbyn addysg addas fel arall.

Ar 30 Ionawr 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bwriad⁴ i ddefnyddio pwerau presennol a geir yn adran 29 o Ddeddf Plant 2004 i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata i'w cynorthwyo i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Cynhelir ymgynghoriad ar wahân ar y rheoliadau hyn dros y misoedd nesaf. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynnwys ac addasrwydd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 i gefnogi awdurdodau lleol i asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir i blant a addysgir yn y cartref.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ar gynnwys ac addasrwydd y pecyn cymorth i addysgwyr yn y cartref, gan gynnwys y llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Ceir anghysondeb o ran lefel y cymorth a roddir i addysgwyr yn y cartref, a'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. Mae addysgwyr yn y cartref wedi awgrymu bod eu profiad nhw yn dangos nad yw plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref yn cael cystal cymorth i gael gafael ar wasanaethau cyffredinol a buddion sydd ar gael, o gymharu â phlant a phobl ifanc mewn addysg brif ffrwd. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried sut i atgyfnerthu'r

¹www.gweddill.gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

² www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents

³ www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/436A

⁴ www.gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/eotas/?lang=cy

cymorth sydd ar gael i addysgwyr yn y cartref drwy egluro llwybrau atgyfeirio i gymorth a gwasanaethau addysg, yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol a chymorth arbenigol.

Mae'r cynnig felly yn un rhan o'r camau gweithredu pellgyrhaeddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi plant a phobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

2. Y Materion

Mae system addysg Cymru yn seiliedig ar ddarparu amrywiaeth o ddewisiadau i ddiwallu anghenion a gallu dysgwyr o bob oedran.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol Cymru i wneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas ac nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol – gall hyn gynnwys y plant hynny sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ogystal â'r plant hynny nad ydynt yn derbyn addysg o gwbl. Mae awdurdodau lleol wedi dadlau droeon eu bod ei chael hi'n anodd bodloni'r gofyniad hwn am nad oes dyletswydd ar rieni i 'gofrestru' eu bod yn addysgu yn y cartref, ac nad oes ganddynt y pwerau angenrheidiol i asesu'r addysg a gaiff plant a addysgir yn y cartref.

Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol wedi gofyn am ddeddfwriaeth i roi dyletswydd ar rieni i gofrestru â nhw pan fyddant yn bwriadu addysgu eu plentyn/plant yn y cartref. Cefnogwyd hyn gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cofrestr o blant a addysgir yn y cartref. Argymhellodd adroddiad⁵ a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym mis Hydref 2017 y dylid "creu cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, yn debyg i gofrestr ysgol". Mae awdurdodau lleol o'r farn bod angen mwy o bwerau cyfreithiol arnynt i nodi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, asesu'r addysg a ddarperir ganddynt a chymryd camau yn ôl yr angen, er enghraifft lle nad oes addysg addas yn cael ei darparu, i'w galluogi i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol.

3. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd

Nid yw'r canllawiau statudol yn amddifadu rhieni o'r dewis i addysgu yn y cartref. Mae'r canllawiau'n ceisio sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg addas, ni waeth ble y cânt eu haddysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn parchu penderfyniad rhai rhieni i addysgu eu plant yn y cartref, ond rhaid cydbwyso'r dewis hwn â hawl absoliwt plant i dderbyn addysg addas. Rydym yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o rieni sy'n addysgu yn y cartref yn darparu addysg addas, a'u bod yn gwneud hynny er budd pennaf y plentyn. Fodd bynnag, bydd nifer fach o achosion lle nad yw hyn yn wir, ac oherwydd hynny, rydym yn cymryd y camau hyn er mwyn amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc.

Cyhoeddwyd canllawiau anstatudol i awdurdodau lleol ynghylch plant a addysgir yn y cartref ym mis Ionawr 2017. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi galw am ganllawiau mwy cadarn o ran nodi plant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg addas, ac ar asesu addasrwydd addysg yn y cartref.

Pan fydd plentyn yn mynychu ysgol, yr ysgol sy'n gyfrifol am roi gwybod i awdurdodau lleol am benderfyniad rhieni i addysgu yn y cartref, ac nid y rhiant (oni bai bod y plentyn yn

⁵www.bwrdddiogelu.cymru/2017/11/23/home-education-children-report-2/?noredirect=cy_GB

mynychu ysgol arbennig, pan fydd dyletswydd ar y rhiant i gydgysylltu â'r awdurdod lleol). Mae awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd nodi plant a addysgir yn y cartref pan fydd rhieni yn dewis addysgu eu plentyn cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd oedran addysg orfodol (h.y. ni chafodd y plentyn fyth ei gofrestru ar gofrestr ysgol) neu pan fydd teuluoedd yn symud o un awdurdod lleol i'r llall, heb roi gwybod i'r awdurdod lleol newydd eu bod yn addysgu yn y cartref. Gall hyn gynnwys plant nad ydynt yn cael eu haddysgu o gwbl (plant sy'n colli addysg).

4. Y Cynnig

Canllawiau Statudol Drafft

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt ar gofrestr ysgol a gynhelir, nad ydynt mewn EOTAS, nad ydynt ar gofrestr ysgol annibynnol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas, rydym wedi datblygu canllawiau statudol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynnwys ac addasrwydd y canllawiau statudol arfaethedig. Bydd y canllawiau statudol yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod plant yn derbyn addysg addas. Yn ogystal â rhoi eglurhad ar nodweddion addysg addas, mae'r canllawiau statudol yn atgyfnerthu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol eu defnyddio pan na ddarperir addysg addas. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn rhoi eglurhad o ran y cymorth y gallai awdurdodau lleol ei gynnig i addysgwyr yn y cartref yn eu hardaloedd.

Nid yw'n ofynnol i addysgwyr yn y cartref ddilyn cwricwlwm penodol, na mabwysiadu dulliau a ddefnyddir mewn ysgolion, ac ni fydd yn ofynnol ychwaith i'r plant sefyll unrhyw arholiadau neu asesiadau cenedlaethol. Nid yw'r cynnig hwn yn newid y sefyllfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i riant sicrhau bod ei blentyn yn derbyn addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i oedran, doniau a gallu'r plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo.

Llawlyfr drafft i Addysgwyr yn y Cartref

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn rhanddeiliaid ar gynnwys ac addasrwydd y llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys datblygu tudalen addysg yn y cartref ar lwyfan dysgu digidol Cymru, Hwb, cymorth â chofrestru ar gyfer arholiadau, gwybodaeth ar gael gafael ar wasanaethau cyffredinol a'r cymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru.

Caiff nifer o wasanaethau iechyd, gofal a chymorth cyffredinol a gwasanaethau ieuencid eu hwyluso drwy'r ysgol, a all olygu nad yw rhai plant a addysgir yn y cartref a'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau ac yn colli'r cyfle i fanteisio ar fentrau a gwasanaethau allweddol o bosibl. Wrth i ni barhau i ddatblygu'r pecyn cymorth, byddwn yn parhau i ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref er mwyn ceisio deall pa help a chymorth a fyddai'n ddefnyddiol.

Cronfa Ddata Addysg yn y Cartref

Ar 30 Ionawr 2018, amlinellodd y Gweinidog Addysg ei bwriad i ddatblygu rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o blant er mwyn nodi'r rhai hynny nad ydynt ar gofrestr ysgol, cofrestr Addysg Heblaw yn yr Ysgol neu gofrestr ysgol annibynnol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i rannu ychydig bach o wybodaeth

anghlinigol i boblogi'r gronfa ddata. Bydd y data a ddarperir gan y byrddau iechyd lleol yn cael eu cymharu â chofrestrau ysgolion, cofrestrau Addysg Heblaw yn yr Ysgol a chofrestrau ysgolion annibynnol i greu rhestr o blant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i lunio cronfa ddata sy'n eithaf cyflawn o blant nad ydynt ar unrhyw gofrestr addysg, ac i gynnal ymholiadau i ddarpariaeth ac addasrwydd eu haddysg.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer pennu cwmpas helaeth gyda rhanddeiliaid i ystyried gofynion y gronfa ddata, y feddalwedd bresennol sydd ar gael, ac unrhyw gyfyngiadau ymarferol neu gyfreithiol. O ganlyniad, ymgynghorir ar y rheoliadau ar gyfer y gronfa ddata yn ddiweddarach eleni.

5. Casgliad

Blaenoriaeth bennaf y dull hwn o weithredu yw cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg addas ac i egluro'r sefyllfa am y pwerau sydd ganddynt eisoes.

Bydd hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg addas, a bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle i ffynnu a gwireddu ei botensial.